# RHESYMEG DROS BOLISI CHWARAE CENEDLAETHOL I GYMRU

Darnau wedi eu golygu
o Adroddiad "Adolygiad o Raglenni Cyllido o fewn Trefniadau Partneriaeth Lleol Plant"
i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| *1* | *Cyflwyniad* | *2* |
| *2.* | *Diffiniad o Chwarae* | *3* |
| *3.* | *Pwysigrwydd chwarae yn natblygiad plant* | *4* |
| *4.* | *Manteision chwarae ar gyfer cymunedau a chymdeithas* | *8* |
| *5.* | *Cyd-destun – Yr amgylchedd cyfredol ar gyfer chwarae plant yng Nghymru* | *10* |
| *6.* | *Manteision sy'n codi o bolisi cenedlaethol ar gyfer chwarae* | *12* |
| *7.* | *Methodoleg* | *13* |
| *Cyfeiriadau* | | *16* |
| *Atodiad 1* | *Darnau o adroddiad Cyflwr Chwarae i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2000))* | *20* |
| *Atodiad 2* | *Darn o "Yr Hawl Cyntaf – fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae", Chwarae Cymru (Mawrth 2001)* | *27* |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Plant yng Nghymru (mewn partneriaeth gyda Chwarae Cymru), ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi cynnal adolygiad o raglenni cyllido partneriaethau lleol plant. Y bwriad yw rhoi rhesymeg gynhwysfawr a gwybodus sy'n esbonio pam y credwn fod chwarae yn bwysig i blant a pham y credwn y dylid darparu ar gyfer chwarae. Dylai anghenion chwarae plant Cymru fod yn greiddiol i bolisi chwarae, a dylai gefnogi hanfod polisïau eraill y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc.

1.2 Yn 2000 comisiynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad "Cyflwr Chwarae: adolygiad o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru a chynllun grant 2000" *(Atodiad 1).* Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar arolwg o awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol yn ymwneud â chwarae plant ledled Cymru. Yn eu cyfarfod ar 24 Ionawr 2001, derbyniodd Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cymru yr adroddiad Cyflwr Chwarae a'i argymhellion. Roedd y ddau argymhelliad cyntaf o arwyddocâd arbennig:

- Galwai'r cyntaf am ddatblygu fframwaith polisi cydlynus i Gymru.
- Cynigiodd yr ail y dylid annog awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddatblygu polisïau chwarae a strategaethau ar gyfer eu gweithredu, gyda'r nod o sicrhau gweithrediad llawn Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n cydnabod fod chwarae yn rhan bwysig o ddatblygiad plant a bywyd diwylliannol plentyndod.

1.3 Cadarnhawyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ym mis Rhagfyr 1991. Dywed "Strategaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc" y Cynulliad y dylai'r Confensiwn roi sylfaen egwyddor ar gyfer yr holl drafodion gyda phlant. Mae Erthygl 31 yn arbennig o berthnasol i ddatblygu polisi chwarae plant. Mae'n dweud y bydd y cenhedloedd a lofnododd yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamddena, i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden addas i oedran y plentyn ac i gymryd rhan yn rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau:

1.4 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gwireddu dau argymhelliad cyntaf "Cyflwr Chwarae".

## 2. Diffiniad o Chwarae

2.1 Mae'r proffesiwn gwaith chwarae yn diffinio chwarae fel ymddygiad *"a gaiff ei ddewis yn rhydd, ei gyfarwyddo yn bersonol a'i gymell yn gynhenid, hynny yw, ei berfformio heb unrhyw nod neu wobr allanol"*. (PlayEducation, 1982)

3.2 Mae chwarae yn ymddygiad a gaiff ei:

**Ddewis yn Rhydd** – fod plant yn dewis **BETH** i'w wneud, eu hunain.

**Gyfarwyddo'n Bersonol** – fod plant yn dewis **SUT** y gwnânt rywbeth.

**Gymell yn Gynhenid** – fod plant yn dewis **PAM** y gwnânt rywbeth: fod chwarae plant yn digwydd heb unrhyw nod neu wobr allanol.

2.3 Fel y'i deellir ar hyn o bryd, ystyrir ymddygiad plant fel chwarae pan fo sawl un o'r meini prawf dilynol i'w gweld. Gall ymddygiad chwarae fod yn: fyrfyfyr, yn ganlyniad ysfa fiolegol, profiad drostynt eu hunain, di-nod, lle mae'r plentyn yn rheoli'r cynnwys a'r bwriad, cynnwys ciwiau chwarae neu feta-signalau, perfformio patrymau modur mewn dilyniant newydd, megis prancio, ailadrodd a newydd, an-niweidiol ac unioni.

2.4 Bydd plant yn defnyddio eu hamgylchedd i gefnogi eu chwarae a byddai amgylchedd a ystyrid fel un gyfoethog ar gyfer chwarae plant yn cynnwys rhai neu'r cyfan o'r propiau dilynol.

- Y Cwricwlwm Gwaith Chwarae (lluniwyd gan King a Hughes, gweler Hughes 1996b): mae'r cwricwlwm yn awgrymu fod y profiadau hanfodol sydd ar gael i blant yn disgyn i'r categorïau dilynol – Yr Elfennau (Tân, Dwr, Awyr, Daear), Hunaniaeth, Cysyniadau a'r Synhwyrau.

- Mae plant angen profiad uniongyrchol a throstynt eu hunain o bob un o'r pedair elfen. Maent angen y cyfle i chwarae gyda thân, dwr, awyr a daear). Mae plant angen chwarae gyda'u hunaniaeth, h.y. pwy ydynt a sut edrychant, a gyda holl gysyniad hunaniaeth. Mae angen i blant wneud synnwyr o fyd lle mae llawer o'r hyn sy'n bodoli yn haniaethol. Mae angen i blant fedru ymchwilio byd cysyniadau. Nid yw hyn yn golygu fod yn rhaid i'r cysyniadau

fodoli mewn realaeth. Dylai'r amgylchedd ar gyfer chwarae plant ysgogi'r synhwyrau. Dylai cerdd a seiniau, blasau, arogleuon lliwiau a gwahanol weadau oll fod ar gael.

- Bydd elfennau eraill o amgylchedd chwarae'r plentyn yn rhoi mynediad i dirwedd amrywiol, deunyddiau a chyfleoedd ar gyfer adeiladu a newid. Bydd yr amgylchedd yn rhoi ffocysau, dewisiadau ac amgennau, a mynediad i dwls, rhannau rhydd, her a risg.

2.5 Caiff cydrannau uchod amgylchedd chwarae plant eu tynnu ynghyd yn gryno yn "Yr Hawl Gyntaf – fframwaith ar gyfer asesu gwaith chwarae" (Chwarae Cymru Mawrth 2001 – *gweler Atodiad 2*).

## 3. Pwysigrwydd Chwarae mewn Datblygiad Plant

3.1 Mae ymwybyddiaeth gynyddol, a gefnogir gan dystiolaeth ymchwil, fod chwarae yn rhan sylfaenol a chyfannol o ddatblygiad iach, nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y cymdeithasau y maent yn byw ynddynt. Mae data niwrolegol gan Huttenlocher (1990, 1992), Sutton-Smith (1997) a Gould (1996) yn awgrymu y gall profiadau chwarae cyfoethog cynnar fod ag effaith barhaol ar ddatblygiad plant a'u gallu diweddarach i feddwl a phrosesu gwybodaeth, tra fod gan brofiadau tlawd brognosis i'r gwrthwyneb. (Gweler, er enghraifft, Balbernie 1999).

3.2 Mae'r niwrolegydd Huttenlocher (1992, t. 63), ar ôl awgrymu y gall plant dan ddeg oed fod ag ymennydd ddwywaith maint posibl plant dros yr oedran hwnnw, yn cynnig cyfnod sensitif ar gyfer twf ymennydd yn ymestyn o tua wyth mis i wyth mlynedd o ran hyd – cyfnod a gaiff ei ddominyddu yn ddi-os gan ymddygiad chwarae mewn plant.

3.3 Awgrymodd Sutton-Smith (1997), gan gyfeirio at Huttenlocher (ibid) y cymerir fod gallu ymennydd y plentyn bychan i fynd drwy newidiadau corfforol a chemegol yn barhaol wrth iddo ymateb yr amgylchedd yn awgrymu ystwythder enfawr ac y gall fod mai swyddogaeth chwarae yw cynorthwyo i wireddu potensial yr ymennydd. (t225)

3.4 Gan gysylltu'r hyn a ddisgrifia fel amrywiaeth rhyfeddol chwarae gyda chysyniad Gould (1996) o amrywioldeb y mae'n awgrymu yw nodwedd ganolog esblygiad biolegol, mae Sutton-Smith hefyd yn awgrymu oherwydd ystwythder y bydd yr ymennydd dynol yn cadw ei amrywioldeb

posibl oherwydd y caiff gor-ddarpariaeth niwronau adeg geni eu defnyddio yn fwy effeithlon, os ydynt yn agored i amrywiaeth profiad drwy chwarae (tt. 221 a 226).

3.5 Mae hefyd yn dadlau y medrai rôl chwarae fod mewn gwneud cysylltiadau niwronaidd yn real, yn hytrach nag yn bosibl – ei swyddogaeth yw arbed mwy o'r amrywioldeb a all fod yno, nag a gâi ei arbed arall fel pe nad oedd chwarae (tt. 225-226).

3.6 Hanfod barn Sutton-Smith yw y caiff y plentyn dynol ei eni gyda gor-ddarpariaeth niwronaidd enfawr, a fydd yn marw os na chaiff ei ddefnyddio. Mae'n credu fod *"quirky, apparently redundant and flexible responses to experience",* hynny yw chwarae yn arwain at ddefnydd y gor-ddarpariaeth hwn, gan felly sicrhau ei fod yn cymryd rhan yn barhaol ym mhrosesau'r ymennydd yn y dyfodol ac osgoi problemau a awgrymodd Gould (ibid) oedd yn gysylltiedig â chaledu ymddygiad ar ôl unrhyw addasiad llwyddiannus yn y dyfodol.

3.7 Ar y llaw arall, mae Balbernie (1999) yn sôn am ganlyniad niwrolegaidd peidio chwarae gan ddweud y gall plentyn na chaiff ei ysgogi drwy chwarae ag ef, a sydd heb fawr o gyfle i ymchwilio ei (h)amgylchiadau, fethu cysylltu'r llwybrau a'r cysylltiadau niwral hynny fydd eu hangen ar gyfer dysgu yn ddiweddarach. (t.17)

3.8 Mae Parry ac eraill (1995) hefyd yn awgrymu fod trawma mewn plentyndod yn effeithio ar ffisioleg ymennydd y plentyn:

"*Children exposed to sudden, unexpected, man-made violence, [are] at great risk [of] profound emotional, behavioural, physiological, cognitive and social problems."* (p. 17)

3.9 Mae Gunner (1998) yn adrodd fod ymenyddiau blant mewn trawma yn datblygu cylchedredd 'clicied ysgafn' ar gyfer ymateb i stres, oherwydd lefelau uchel y cortisol sydd meddai yn cynyddu gweithgaredd yn y rhan o'r ymennydd yn ymwneud â gwyliadwriaeth a chynhyrfiad. Fodd bynnag, dywed Gunner fod lefelau uchel o gortisol hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr hipocampws a bod"*children with disorganised attachment...have a permanently higher level of cortisol*". (t.18)

3.10 Mae Balbernie (1999) hefyd yn awgrymu mai ymateb addasol eraill y medrir ei actifeiddio gan sefyllfaoedd o ofn yw'r hyn a eilw yn "*the dissociative continuum - the freeze or surrender response".* (t 39)

3.11 Mae'n amlwg mai chwarae yw canolbwynt bywydau plant. Mae popeth arall a wnânt (bwyta, ymolchi, cysgu, siopa, mynd i'r ysgol) yn ymyrryd ar eu chwarae. Lle bynnag y bo'n bosibl bydd plant yn ceisio chwarae pan fo'r gweithgareddau eraill hyn yn digwydd. O safbwynt y plentyn, mae unrhyw weithgaredd heblaw chwarae yn eu harallgyfeirio o'u chwarae ac mae'n rhesymol i dybio mai chwarae yw dysgu plentyn drostynt eu hunain, a wneir drwy brofi a chamgymeriad.

3.12 Mae dyfalwch plant i chwarae yn awgrymu'n gryf fod gan bob plentyn ysfa reddfol hollbwysig i chwarae a fod chwarae yn weithgaredd naturiol cynhenid. Medrir dadlau fod hyn yn rheidrwydd ymddygiadol sydd â'i wreiddiau ym mhrofiad esblygol dynolryw. Er enghraifft, mae Hughes (2001) yn awgrymu fod plant yn defnyddio ffenomen atgrynhoad i "*play themselves up to evolutionary speed.*" (p199) Medrid dweud mai chwarae yw'r broses y sicrhaodd dynoliaeth ei barhad drwyddo. Mae Lorenz (1972) yn awgrymu "*Certain animals including man, are liberated from rigid instinct and have evolved as specialists in non-specialisation.*" (t 59) ac mae Sylva, (1977) yn cefnogi hyn gan ddweud fod chwarae yn gydran arwyddocaol,

"*Natural selection would favour the most playful individuals in specialist species, for they have acquired more useful information about the potential of the environment and their actions on it.*" (t 60)

3.13 Nid yn unig mae plant yn datblygu'r sylfeini niwrolegol fydd yn galluogi datrys problemau, iaith a chreadigrwydd, maent hefyd yn dysgu tra'u bod yn chwarae. Maent yn dysgu sut i gysylltu gydag eraill, sut i galibreiddio eu cyhyrau a'u cyrff a sut i feddwl mewn termau haniaethol. Drwy chwarae mae plant yn dysgu sgiliau cyfathrebu, negydu a gwrando. Drwy'r rhyddid, dewis a rheolaeth a brofant wrth chwarae fe ddysgant amdanynt eu hunain a sut i ryngweithio gyda'u hamgylchiadau, yn cynnwys y byd naturiol. Mae sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol plant oll yn datblygu tra'u bod yn chwarae. Mae sgiliau o'r fath yn hanfodol wrth greu hunan-barch a hyder, ac maent yn gysylltiedig â deallusrwydd emosiynol, nodwedd gynyddol bwysig ar gyfer llwyddiant yn y 21ain ganrif. (Gweler Goleman, 1995)

3.14 Drwy chwarae mae plant hefyd yn dysgu am risg. Mae hyn yn elfen hanfodol mewn adeiladu hyder a chymhwyster, angenrheidiol ar gyfer datblygiad personol, hyblygrwydd a goroesiad. Drwy gydol eu chwarae bydd sefyllfaoedd a fedrai fod yn beryglus yn wynebu plant ac yn

ystod eu chwarae mae plant yn dysgu sut i drafod risg, yn dysgu ei asesu a datblygu sgiliau i'w reoli. Drwy brofi a chamgymeriad darganfyddant eu cyfyngiadau a sylweddoli'r potensial am gymryd her. Mae plant yn gywrain ac ymholgar gydag ysfa gynhenid a greddfol i ymchwilio'r anhysbys, arbrofi a phrofi eu hunain.

3.15 Mae chwarae yn gyntaf oll yn broses dysgu hunan-gyfeiriedig y plentyn ei hun ac yn hynny o beth yn broses sy'n ddilys ar gyfer plant o bob oedran. Mae plant yn chwarae o ddiwrnod eu geni a thrwy gydol eu plentydod a medrid ystyried bod chwarae yn arddangosiad eu bod yn dilyn eu hagenda biolegol personol ar gyfer gwella ei sylfaen gwybodaeth ac ennill profiad uniongyrchol a chadarn o'r byd.

3.16 Mae rhai cymdeithasegwyr wedi cyffelybu plant gyda diwylliant plentyndod, sef yr arena lle mae plant fel actorion cymdeithasol debycaf o fynegi eu gwerthoedd, eu celf, eu cerddoriaeth, eu diwylliant corfforol a'u hiaith a'i hiwmor lle mae plant yn weithredol wrth adeiladu a phenderfynu eu bywydau cymdeithasol eu hunain (Prout a James 1997).

3.17 Os mai chwarae yw diwylliant plentyndod, yna fel fersiwn oedolion, mae'n ddiwylliant a all fod ar adegau yn greadigol neu ddinistriol, creulon yn ogystal â diniwed. Mae plant yn chwarae eu fewn eu codau ymddygiad eu hunain, yn ogystal â rhai eu diwylliant a chymdeithas. Gan chwarae roi proses i blant ar gyfer ymchwilio'r codau hyn.

3.18 Cynigiwyd hefyd fod chwarae plant, gyda'i nodweddion ailadroddus ac ymchwiliadol, yn nodwedd hollbwysig o ddatblygiad eu sgiliau gwybyddol a deallusol. (Singer 1994).

3.20 Drwy eu chwarae mae plant yn dysgu sut i ddysgu. Nid gwybodaeth benodol a gaffaelir drwy chwarae ond ffordd gyffredinol o feddwl am ddatrys problemau sy'n cynnwys ystwythder haniaethu a chyfuniadol lle mae plant yn rhaffu darnau o ymddygiad ynghyd i ffurfio atebion newydd i broblem sydd angen ailstrwythuro meddwl neu weithred (Sylva 1977). Ymhellach, dywedodd Hughes (1996 a 1998), gan aralleirio Eibl-Eibesfeldt (1970), *"Play has been described as scientific research conducted by children"*.

3.21 Gall rhai ystyried chwarae yn unig fel fersiwn plant o hamdden oedolion. Pan fo plant yn chwarae, gall eu gweithgareddau ymddangos yn ddi-sut, di-nod a heb unrhyw ganlyniadau a ragwelwyd, ac yn hynny o'r beth, efallai na chaiff ei ystyried yn bwysig. Mewn byd sy'n

canolbwyntio ar ganlyniadau gweladwy a diriaethol, mae risg na chaiff chwarae y lle blaenllaw y mae'n ei haeddu o fewn datblygiad plant. I'r gwrthwyneb, y rhyddid a 'r ffaith ei fod yn canoli ar y plentyn sy'n gwneud chwarae yn broses ddysgu effeithlon a chynhwysfawr. Mae chwarae yn broses anhygoel o ddwys o dwf mewnol a datblygiad i blant .

## 4. Manteision Chwarae i Gymunedau a Chymdeithas

4.1 Ym mhob cymuned yng Nghymru, ym mhob rhan o'n cymdeithas, ein plant yw ein heddiw a'n hyfory. Chwarae yw dyfais natur ar gyfer galluogi plant i wneud cysylltiadau gyda'u byd, i ddatblygu sgiliau goroesi, adeiladu perthynas, i brofi rheolaeth ac i wneud rhyw synnwyr o fywyd a'r cyd-destun y maent yn byw ac yn tyfu ynddo. Pan fo'n plant yn chwarae cânt eu galluogi, eu cynnwys, eu hymrymhau a'u cysylltu gyda'u byd. Felly mae'n dilyn os na all ein plant chwarae, neu os yw eu chwarae yn gyfyngedig neu gyda rhyw fath o ogwydd, yna byddant yn teimlo wedi eu hanablu, eu hallgau, yn sinigaidd, rhwystredig, di-rym, dig a datgysylltiedig.

4.2 Mae dewis clir yma ar gyfer ein cymdeithas. Bydd y teimladau a'r canfyddiadau sydd gan ein plant wrth iddynt dyfu yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer yfory pawb, ac yn y pen draw, ar gyfer dyfodol cymdeithas.

4.3 Yn 1926, dywedodd Lloyd George, y Prif Weinidog ar y pryd:

*"Chwarae yw hawl cyntaf plentyn ar y gymuned. Ni all unrhyw gymuned ymylu ar yr hawl honno heb wneud anaf dwfn a pharhaol i feddyliau a chyrff ei dinasyddion".*

4.4 Goblygiad y datganiad hwn yw fod chwarae o'r pwys mwyaf i blant unrhyw gymuned ac y gall achosi niwed mawr i blant os na chânt gyfle i chwarae. Cadarnheir hyn mewn astudiaethau gan, er enghraifft, Huttenmoser (1995), gwaith Chugani (1995, 1996, 1997) a Brown (1998).

4.5 Wrth gyfeirio at yr hyn a ddisgrifiant fel 'plant batri' mae Huttenmoser *et al* (1995), er enghraifft, yn priodoli amddifadiad chwarae i effeithiau traffig ac ofnau rhieni am oedolion a fedrai gamdrin eu plant. Dywedasant fod plant batri yn dangos datblygiad cymdeithasol a modur sylweddol is, ac yn llai annibynnol (t vi).

Dyfynnodd Hugill, (1998) yr adroddiad hefyd gan ddweud fod plant batri yn aml yn ymosodol ac yn cwyno llawer. Erbyn eu bod yn bump oed maent yn rhwystredig yn emosiynol a chymdeithasol, yn ei chael yn anodd cymysgu, ar ôl gyda gwaith ysgol ac mewn llawer mwy o risg o fod yn or-dew.

4.6 Soniodd astudiaethau Chugani (1996), ar blant a fu heb chwarae ac sydd wedi ei difreintio o ysgogiad am "*mental problems, physical de-sensitisation, and restrictions in brain-growth and severe learning difficulties, erratic behaviour, difficulty in forming bonds, depression and withdrawal resembling autistic children or hyperactivity and loss of control, like children with ADD. The neurological cost.. [being].. that regions of children's brains are utterly devoid of electrical activity.*" (GwelerTobin, (1997))

4.7 Caiff effaith amddifadedd chwarae ei amlygu ymhellach mewn astudiaeth o 26 llofrudd ifanc. Daeth Brown a Lomax (1969) i'r casgliad i'r astudiaethau ddangos dro ar ôl tro fod ymddygiad chwarae bron yn absennol drwy gydol bywyd dynion gwrth-gymdeithasol treisgar iawn beth bynnag oedd y ddemograffiaeth. Dywedodd Brown mai ei argraffiadau parhaol yw fod gan amddifadedd chwarae hefyd ag effaith drychinebus ar fenywod. (Brown, 1998, t 249).

## 5. Cyd-destun – Yr Amgylchedd Cyfredol ar gyfer Chwraae Plant yng Nghymru

5.1 Dengys profiad o bob rhan o Gymru fod ysfa plentyn i chwarae hefyd yn rhoi budd eilaidd i gymdeithas, drwy gynnwys y gymuned ehangach wrth ddatblygu cyfleoedd ar gyfer plant i chwarae. Mae'r broses hon yn cyfrannu'n sylweddol at broses cynhwysiant cymdeithasol ac adeiladu darpariaeth gymunedol. Dengys profiad fod chwarae i'r plant eu hunain, a'r broses y mae'r rhieni yn ymwneud â hi i ddarparu ar gyfer chwarae eu plant, yn gwneud cyfraniad sylweddol wrth wireddu amcanion llawer o gynlluniau'r llywodraeth. Ond y plentyn yn gyntaf oll ac yn bennaf sydd piau'r chwarae!

5.2 Mae posibilrwydd i holl blant Cymru fod â 35% o'u hamser ar gael i chwarae – ddwywaith faint o amser a dreuliant yn yr ysgol bob blwyddyn. Mae plant yn ffurfio bron 25% o'r boblogaeth a hwy sy'n defnyddio mwyaf ar yr awyr agored gan dreulio 4 i 6 awr y dydd ac weithiau hyd at 10 awr y dydd yn yr awyr agored, yn chwarae a mwynhau gweithgareddau cyffrous a chymryd risg. Mae gan yr

amgylchedd y mae plant yn byw, tyfu a chwarae ynddo effaith sylweddol ar eu hymddygiad chwarae. (Gweler "Make Way for Children's Play": Playboard 1985).

5.3 Yn draddodiadol, mae plant wedi chwarae lle medrant. Bydd plant yn chwarae lle a phryd y medrant; yn y stryd, yn y caeau, ar eu ffordd i ac o'r ysgol, mewn tyrfa, ar ddarn o dir gwastraff, rhedeg i lawr rhiw.

5.4 Mae angen i'r amgylchedd y mae plant yn chwarae ynddo fod yn addas ar gyfer eu hanghenion datblygu. Fodd bynnag, caiff y cyfleoedd hyn eu herydu fwyfwy. Tybir fod y strydoedd yn anniogel, cefn gwlad a gofod agored yn aml yn anhygyrch, llawer o diriogaeth wedi ei wahardd, a'r llanastr a swn a wnânt yn gwneud plant yn amhoblogaidd. Mae'r amgylchedd trefol yn arbennig yn dod yn gynyddol gyfyngedig ar gyfer y cyfleoedd chwarae hyn. Dros yr hanner can mlynedd diwethaf nid yw'n afresymol dweud fod oedolion yn gynyddol wedi coloneiddio yr holl ofod agored cyhoeddus. Weithiau crëwyd ardaloedd wedi eu ffensio ar gyfer meysydd chwarae plant. Lle arferai plant chwarae yn rhydd gyda chyfleoedd diderfyn i ddarganfod ehangder eu byd, nid oes ganddynt mwyach y gofod, cyfle na rhyddid i wneud hynny.

5.5 Mae plant yn byw mewn gwahanol rannau o Gymru yn wynebu cyfyngiadau tebyg ar eu cyfleoedd i chwarae. Mae'r risgiau, real a thybiedig, sy'n eu hwynebu pan adawant eu cartrefi yn golygu mai ychydig o gyfle a roddir i blant i greu eu cyfleoedd chwarae eu hunain y tu allan i'w cartrefi. Mae plant yn byw mewn cymunedau anghysbell a hefyd ar stadau dinesig yn aml yn methu cyrchu'r ddarpariaeth chwarae sydd ar gael ar hyn o bryd. Er y gall y cyfyngiadau a roddir ar ryddid plant i chwarae mewn ardaloedd gwledig fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer plant mewn ardaloedd trefol, gall effeithiau'r cyfyngiadau hyn fod yr un mor ddybryd.

5.6 Oherwydd y sefyllfa hon, mae'n ddyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried mabwysiadu polisi sy'n creu amgylchedd i:

- unioni anghydbwysedd yr anghydraddoldeb hwn;
- ddiogelu hawliau plant ar gyfer chwarae rhydd; a
- sicrhau fod gan bob plentyn fynediad i ddarpariaeth chwarae priodol sy'n ateb eu hanghenion datblygu.

Dylai sicrhau fod yr holl benderfyniadau a chamau gweithredu a fedrai effeithio ar anghenion chwarae plant yn rhoi ystyriaeth yn y dyfodol i'r anghenion hynny.

5.7 Wrth i'r Cynulliad ystyried y llu o alwadau gan eraill gydag agendâu nad ydynt yn cwmpasu anghenion plentyndod, mae hyd yn oed fwy o risg yr aiff chwarae plant ymhellach o'r golwg a'i ymylu. Nid yw plant yn treulio amser yn ymwneud â gwleidyddiaeth – a iawn felly, byddai'n eu harallgyfeirio o'u chwarae. Cyfrifoldeb oedolion a llywodraeth yw deall a sicrhau y caiff anghenion chwarae plant eu cwrdd a'u diogelu. Mae chwarae yn ddiddorol, heriol a hwyl i blant. Fodd bynnag, mae creu cyfleoedd ar gyfer plant i chwarae yn mynnu dynesiad difrifol, gwybodus a chynlluniedig.

5.8 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw genedl arall yn Ewrop wedi mabwysiadu polisi ar gyfer chwarae plant. Felly, mae penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fabwysiadu polisi chwarae yn torri tir newydd ac yn dangos gweledigaeth, gan arddangos yn glir ymroddiad y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau fod plant Cymru a'u hanghenion yn ganolog i wneud polisi, ac y gwneir darpariaeth i ateb yr anghenion hynny. Bydd yn ddatganiad clir ac esblyg o gred y Cynulliad Cenedlaethol o werth chwarae mewn plentyndod a phwysigrwydd plant yn ein cymdeithas.

## 6. Manteision sy'n codi o Bolisi Cenedlaethol ar gyfer Chwarae

6.1 Credir y byddai'r manteision dilynol i fabwysiadu polisi chwarae gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y polisi chwarae yn:

- ddatganiad digamsyniol am weledigaeth ar gyfer y dyfodol lle rhoddir yr ystyriaeth uchaf i holl blant yr ardaloedd y gweithredir ynddynt a'u hanghenion chwarae a darpariaeth cyfleoedd chwarae ansawdd uchel.
- manylu diffiniad cytunedig o chwarae a darparu fframwaith o werthoedd ac egwyddorion sy'n gyson ar draws yr ardal ddaearyddol y gweithredir ynddi.
- codi ymwybyddiaeth a chyfrannu at ddealltwriaeth a rennir o werth sylfaenol chwarae plant a rôl gyfannol chwarae yn lles, dysg a datblygiad pob plentyn.
- cyfrannu at greu amgylchedd newydd lle mae pawb gyda diddordeb mewn anghenion chwarae plant a'r rhai y mae eu gwaith yn effeithio

ar chwarae plant yn rhannu dealltwriaeth o'r cyfraniad y medrant ei wneud a hefyd gyfraniad eraill.

- darparu'r cyd-destun lle caiff gweledigaeth llywodraeth i ateb anghenion chwarae plant ei wireddu drwy newid, arloesedd a datblygiad strategol tymor hir.
- hyrwyddo ffordd newydd o feddwl am a gweithio gyda phlant sy'n cynnwys diffinio eu hanghenion chwarae a dynodi ffyrdd o'u hateb, gan roi sylfaen ar gyfer datblygu strategaeth ar gyfer dyrannu adnoddau i gyflwyno hawl cynhwysfawr i chwarae a hefyd yn strategol mewn ymateb i anghenion chwarae a ddynodwyd.

## 7. Methodoleg

7.1 Cafodd yr adroddiad uchod ei seilio ar arfer gorau o bob rhan o'r Deyrnas Gyfunol. Mae'n adlewyrchu'r syniadau presennol am sut y dylid ffurfio polisi er mwyn sicrhau y medrai gyfrannu'n effeithlon i greu amgylchedd sy'n cefnogi'r angen i ddarparu ar gyfer chwarae plant yn y tymor hir.

7.2 Yn ystod datblygiad y drafft bolisi chwarae, cysylltodd Chwarae Cymru â chynrychiolwyr chwaer sefydliadau yn y Deyrnas Gyfunol, h.y. y Children's Play Council (Lloegr), PlayBoard (Gogledd Iwerddon) a Play Scotland. Ymgynghorwyd hefyd â chynrychiolwyr Playlink a'r Gymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) fel y medrid ystyried adolygiad o bolisïau chwarae eraill yn Ewrop.

7.3 Cynhaliwyd chwiliad o'r dogfennau a gedwir gan y Ganolfan Gwybodaeth Chwarae Cenedlaethol, sylfaen adnoddau a weithredir dan gontract gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwarae (DCMS) gan y National Children's Bureau. Mae'r Ganolfan Wybodaeth yn cadw'r gronfa fwyaf cynhwysfawr o wybodaeth ryngwladol am chwarae a gwaith chwarae yn Ewrop.

7.4 Fodd bynnag, mae ymchwil helaeth ar draws Ewrop, yn cynnwys gweddill y Deyrnas Gyfunol, wedi methu canfod unrhyw enghraifft o gymdeithas a fabwysiadodd bolisi chwarae. Erys y posibilrwydd, er un bychan, fod polisi chwarae cenedlaethol na wyddom amdano nad yw wedi ei drosi i'r Saesneg hyd yma.

7.5 Yn absenoldeb unrhyw bolisïau chwarae ar lefel genedlaethol,, ystyriwyd detholiad o bolisïau chwarae awdurdod lleol-cyfan, megis cyfarwyddyd ar ddatblygu polisïau chwarae a gynhyrchwyd gan

Chwarae Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Ystyriwyd hefyd gyfarwyddyd ar ddatblygu strategaeth chwarae a diwylliannol a gyllidwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac a baratowyd gan Playlink ar ran y Fforwm Polisi Chwarae Plant.

7.6 Mae datblygiad y rhesymeg hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau, materion ac argymhellion gwerthusiad yr adroddiad "Cyflwr Chwarae". *(Atodiad 1)*

7.7 Cafodd cynnwys damcaniaethol ac ymarferol y drafft bolisi chwarae ei drwytho ymhellach gan arolwg o 150 o unigolion a sefydliadau ledled y Deyrnas Gyfunol sydd wedi defnyddio "Yr Hawl Cyntaf – fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae": Chwarae Cymru (Mawrth 2001) a'u profiad wrth weithredu'r broses asesu ansawdd.

7.8 Er y cyfyngwyd arni gan yr amser oedd ar gael, bu'r broses ymgynghori yn eang a gofynnwyd am sylwadau gan amrediad eang o unigolion a sefydliadau ledled Cymru gyda diddordeb mewn chwarae plant a darpariaeth chwarae neu y gallai eu gwaith fod ag effaith ar chwarae plant. Roedd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ddiddordeb a gwybodaeth oedd yn berthnasol i gynnwys yr ymgynghoriad a roedd yn cynnwys er enghraifft: unigolion o fewn cymunedau lleol sy'n weithgar mewn chwarae plant ar sail wirfoddol, swyddogion awdurdodau lleol gyda chyfrifoldeb rheolaeth dros wasanaeth chwarae, sefydliadau gofal plant cenedlaethol, awdurdodau lleol a chynghorau gwasanaeth gwirfoddol.

7.9 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy e-bost, post a chyfweliadau un ai dros y ffôn neu wyneb i wyneb. Mae'r polisi chwarae drafft terfynol yn adlewyrchu consensws o ymatebion gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy.

7.10 Derbyniwyd 25 ymateb i'r 175 gwahoddiad i gyfrannu. Amrywiai'r ymatebion o ran manylder a dyfnder. Fodd bynnag roedd pob ymateb yn adlewyrchu yn ddigamsyniol gonsensws sylweddol o gymeradwyaeth i'r cynigion a amlinellir uchod.

7.11 Mae'n werth nodi fod ymchwilwyr a damcaniaethwyr sydd â diddordeb mewn chwarae plant yn cytuno nad yw rôl chwarae mewn datblygiad plant wedi ei ymchwilio'n ddigonol. Drwy gydol datblygu'r drafft bolisi chwarae hwn daeth yn gynyddol amlwg mai ychydig iawn o ymchwil neu werthusiad fu ar gyfraniad chwarae i ddatblygiad y plentyn a hefyd ei rôl sylweddol o fewn cymdeithas yn ehangach. Fodd

bynnag, mae'r damcaniaethau a chanfyddiadau hynny sydd ar gael yn cefnogi'r cyfraniad a wnaiff chwarae at ddysg, iechyd a lles plant.

7.12 Er fod posibilrwydd fod tystiolaeth seiliedig ar ymchwil i gefnogi ymhellach y dadleuon a roddir yn yr adroddiad hwn, byddai'n ymddangos nad yw'n hysbys i'r amrediad eang o gysylltiadau proffesiynol rhyngwladol a wnaed wrth ddrafftio'r adroddiad hwn.

7.13 Mae prinder tystiolaeth seiliedig ar ymchwil ar hyn o bryd i gefnogi datblygiadau cyfredol a datblygiadau'r dyfodol mewn darpariaeth chwarae plant, y medrid ar hyn o bryd ei ystyried fel gweithred o ffydd.

## 7.14 Cyfarwyddyd ar gyfer partneriaethau lleol ar ddatblygiad Polisi Chwarae

7.15 Cafodd drafftio'r cyfarwyddyd ar ddatblygu polisi chwarae (*Atodiad 4)* ei drwytho gan yr un wybodaeth a dogfennau â'r drafft bolisi chwarae. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad wedi ei gyfyngu i unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad uniongyrchol a pherthnasol o broses datblygu polisi chwarae. Mae ffocws y cyfarwyddyd hwn ar broses yn hytrach na'r cynnwys.

## Cyfeiriadau

Mae llawer o'r adroddiad hwn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau. Roedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd i gyfrannu at y broses yn cynnwys:

"A Strategy for Children's Play": Manceinion

Balbernie, R. (1999) 'Infant Mental Health'. Young Minds Magazine, 39

"Best Play – What play provision should do for children": NPFA (2000)

Brown, S.L., a Lomax, J. (1969) 'A pilot study of young murderers'. Hogg Foundation Annual Report, Austin, Texas

Brown, S. L. (1998) 'Play as an organising principle: clinical evidence and personal observations', yn Marc Bekoff a John A. Byers (Gol) Animal Play. Evolutionary, Comparative and Ethological Perspectives. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Candler P.R. (1999) "Cross-national perspectives on the principles and practice of children's play provision" Traethawd Doethuriaeth: Prifysgol De Montfort

Chilton, T. (1989) Where Children Play: Asiantaeth Gymunedol y Rhyl

Chugani, H.T. (1995) 'Infantile Spasms'. Curr. Opin. Neurol. (2): 139-44

Chugani, H.T. (1996) 'Conti J.R. Etiologic classification of infantile spasms in 140 cases: role of positron emission tomography. J. Child Neurol. 11 (1): 44-8

Chugani, H.T., Da Silva, E. a Chugani, D.C. (1996) 'Infantile spasms: III. Prognostic implications of bitemporal hypometabolism on positron emission tomography. Ann. Neurol. 39 (5): 643-9

Chugani, H.T., Muller, R.A. a Chugani, D.C. (1996) 'Functional brain reorganisation in children. Brain Dev. 18 (5): 347-56

Chugani, H.T. (1996), yn Tobin, J. (1997) 'A second chance for Christian' The Detroit News, 9 Chwefror.

"Chwarae Teg – Strategaeth tair blynedd i ddatblygu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant ym Mhowys": Fforwm Plant a Theuluoedd Powys (Medi 1999).

"Chwarae Plant yng Nghymru": Cymdeithas Chwarae Cymru (1989)

"Convention on the Rights of the Child": Cenhedloedd Unedig (Medi 1990)

"Crynodeb o Bolisïau Awdurdodau Lleol ar gyfer Chwarae yng Nghymru": Chwarae Cymru (Ebrill 1995).

Deddf Addysg 1944

Deddf Plant 1989

Goleman, D. (1995) Emotional Intelligence. Llundain: Bloomsbury Publishing Ccc.

Gould, S.J. (1996b) Full House: The Spread of Excellence from Plato to Darwin. Efrog Newydd: Harmony Books

"Guidance on Play Policies": PLAYLINK (1998)

Gunner, M. (1998) 'Stress and Brain Development'. Anerchiad i Gymdeithas Iechyd Meddwl Plant Ifanc Michigan. 22fed Cynhadledd Flynyddol.

Hughes, B (1982) "Play a definition by synthesis". Caerhirfryn: PlayEducation

Hughes, B. (1996 a.) "A Playworker's Taxonomy of Play Types". Llundain: PLAYLINK

Hughes, B. (1996 b.) Play Environments : A Question of Quality. Llundain : PLAYLINK

Hughes, B. (2001) Evolutionary Playwork and Reflective Analytic Practice. Llundain: Routledge

Hugill, B. (1998) 'Minded out of their minds. The Observer, 29 Mawrth 1998

Huttenlocher, P.R. (1990) 'Morphometric Study of Human Cerebral Cortex Development'. Neuropsychologia, Cyfrol 28, Rhif 6.

Huttenlocher, P.R. (1992) 'Neural Plasticity', in Asbury, McKhann and McDonald, (gol), Diseases of the Nervous System 1: 63-71

Huttenmoser, M., a Degan-Zimmermann, D. (1995) Lebenstraume fur Kinder. Zurich: Swiss Science Foundation

Lorenz, K. (1972) 'Psychology and Phylogeny', yn Studies in Animal and Human Behaviour. Caergrawnt, MA: Harvard University Press

Mannello M. a Statham J. (2000) "Cyflwr Chwarae": Cynulliad Cenedlaethol Cymru

"Make Way for Children's Play": Playboard (1985)

Perry, B.D. (1995) 'Childhood Trauma. The Neurobiology of Adaptation and Use-Dependent Development of the Brain. How States Become Traits'. Infant Mental Health Journal Cyfrol 16, Rhif 4.

Perry, B.D., Arvinte, A., Marcellus, J. a Pollard, R. (1996) 'Syncope, bradycardia, cataplexy and paralysis: Sensitisation of an opiod-mediated dissociative response following childhood trauma'. Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry.

"Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer partneriaeth – dogfen ymgynghori": Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2000)

"Play and Cultural Strategy Guidance": Playlink (Gorffennaf 2001)

"Play Policy": Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf (1999)

"Play Policy": Milton Keynes

"Polisi Chwarae ar gyfer ardal Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot": Chwarae Iawn (Mawrth 2001)

"Prosiect chwarae 2000-2001: Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored" CBS Conwy (2001)

Sutton-Smith, B. (1997) The Ambiguity of Play. Cambridge, Mass.: Harvard University Press

Sylva, K. (1977) 'Play and Learning', yn Barbara Tizard a David Harvey (Gol.) Biology of Play, Spastics International Medical Publications. Llundain: William Heinmann Medical Books

"The Right to Play – a discussion document": Cyngor Dinas Bryste

Tobin, J. (1997) A second chance for Christian. The Detroit News. 9 Chwefror 1997.

Wood P. (1996) "Play Strategy": Fforwm Chwarae Merthyr

"Ymestyn Hawl – dogfen ymgynghori": Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi 2000)

"Yr Hawl Cyntaf – fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae": Chwarae Cymru (Mawrth 2001)

# Atotdiad 1

## Darn o the State of Play report to the National Assembly for Wales

### Yr Astudiaeth

Cafodd yr adroddiad hwn ei gyllido gan gynllun Grant Chwarae 2000. Mae'n adrodd ar astudiaeth o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru a gomisiynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd ym mis Awst 2000 o awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol yn ymwneud â chwarae ledled Cymru. Ategwyd hyn gan ddadansoddiad o gynigion grant Chwarae 2000, ffurflenni dychwelyd grant a chynlluniau Partneriaeth Plant a Ieuenctid, a gyda chyfweliadau gyda unigolion allweddol.

### Pwysigrwydd chwarae

Mae chwarae 'yn ymddygiad a ddewisir yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol a'i gymell yn reddfol sy'n ymrwymo'r plentyn'. Mae ymwybyddiaeth gynyddol, a gefnogir gan dystiolaeth ymchwil, fod chwarae yn rhan sylfaenol a chyfannol o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond ar gyfer y cymdeithasau y maent yn byw ynddynt hefyd. Mae ymchwil niwrofiolegol yn awgrymu y gall profiadau chwarae cynnar fod ag effaith sy'n para ar ddatblygiad plant a'u gallu i ddysgu yn nes ymlaen. Mae chwarae hefyd yn cadw plant yn iach ac actif, yn datblygu sgiliau cymdeithasol a hyder, cynorthwyo plant i ddelio gyda stres, a gall ostwng troseddu a fandaliaeth ymysg ieuenctid. Mae darpariaeth chwarae yn meithrin ymdeimlad o gymuned a gall wella cynhwysiant cymdeithasol.

### Cyfrifoldeb am chwarae

Mae gan chwarae le yng nghyfrifoldebau llawer o adrannau, ond nid oes ganddo gartref yn yr un ohonynt. Ar lefel awdurdod lleol a hefyd lefel y Cynulliad, ychydig o gydlynu neu ddatblygiad strategol fu ar ddarpariaeth chwarae, er fod rhai awdurdodau yn awr yn dechrau datblygu polisïau a strategaethau chwarae sirol. Mae mwyafrif y gwasanaethau chwarae wedi'u lleoli yn adran Gwasanaethau Hamdden yr awdurdod lleol ond gall yr adrannau Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Cynllunio, Parciau a Phriffyrdd a Gwasanaethau Technegol oll fod â rhan. Mae niferoedd cynyddol o awdurdodau yn mabwysiadu strwythur rheolaeth arddull gorfforaethol/cabinet, ond nid yw'n glir eto os y bydd hyn yn arwain at ddynesiad mwy cydlynus at ddarpariaeth chwarae.

**Darpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru**

Mae awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn darparu amrediad eang o gyfleoedd chwarae mynediad agored ledled Cymru. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cynlluniau chwarae gwyliau, sesiynau chwarae y tu allan i'r ysgol, clybiau ieuenctid iau, meysydd chwarae antur, canolfannau chwarae, clybiau gwaith cartref, ardaloedd chwarae sefydlog a darpariaeth chwarae symudol. Fodd bynnag mae amrywiaeth eang yn y ddarpariaeth chwarae sydd ar gael ledled Cymru.

Dangosodd yr arolwg fod bron i 2,000 o ardaloedd chwarae (gydag offer sefydlog) a bron i 4000 o gynlluniau chwarae gwyliau ar gael ledled Cymru. Fodd bynnag profodd yn anodd meintoli darpariaeth chwarae oherwydd yr oedd yn beth prin i un adran fod â throsolwg o'r hyn a gynigid ledled yr awdurdod. Mynegwyd rhai pryderon am effaith chwarae mynediad agored ar gyflwyniad rheoliadau Ewropeaidd ar ardaloedd chwarae sefydlog, a thargedu cyllid dan y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol tuag at wasanaethau yn darparu gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Amlygodd yr astudiaeth hon bwysigrwydd strwythurau ar gyfer ymgynghori a chyd-gynllunio darpariaeth chwarae, a'r angen i ganfod ffyrdd i gynnwys pawb gyda diddordeb mewn chwarae. Roedd cefnogaeth i'r syniad o 'ladmerydd chwarae' lleol ym mhob awdurdod, cyn belled ag y medrai'r swydd hon weithio o fewn strwythur clir ac ymrwymiad awdurdod lleol i ddatblygu darpariaeth chwarae.

Mae gan y sector gwirfoddol rôl bwysig wrth gyflwyno darpariaeth chwarae mynediad agored. Dim ond i gyrff gwirfoddol y mae rhai ffynonellau grant ar gael, a medrant yn aml ddatblygu prosiectau newydd a blaengar sy'n ymateb i anghenion y gymuned. Eto mae llawer o amrywiaeth yn faint o waith partneriaeth sydd rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ledled Cymru. Nid oes rhwydweithiau neu ffora chwarae yn bodoli ym mhob ardal. Lle mae ganddynt gefnogaeth ac adnoddau digonol, medrant roi dull o gynnwys pob parti sydd â diddordeb. Gallodd ffora yn yr arolwg gyda gweithiwr cyflogedig gymryd rhan mwy effeithlon wrth ddosbarthu'r grant Chwarae 2000 a sicrhau yr ymgynghorwyd â phob sefydliad perthnasol.

## 6. MATERION AC ARGYMHELLION

6.1 Mae pennod olaf yr adroddiad yn amlinellu nifer o faterion allweddol yn deillio o ganfyddiadau'r arolwg, ac yn cyflwyno nifer o argymhellion i'w hystyried gan aelodau'r Cynulliad.

**Mynediad anghyfartal**

6.2 Mae amrediad eang o ddarpariaeth chwarae mynediad agored ledled Cymru, yn cynnwys rhai prosiectau blaengar a chyffrous, ond mae argaeledd yn amrywio rhwng awdurdodau, a rhwng ardaloedd trefol a gwledig o fewn awdurdodau. Mae mynediad plant i gyfleusterau chwarae yn dibynnu i raddau helaeth ar lle maent yn byw.

6.3 Ymddengys yn aml fod datblygiad cyfleoedd chwarae yn dibynnu ar egni a chymhelliant ychydig o unigolion ymrwymedig, ac nid oes ganddo sylfaen polisi sir-gyfan ar chwarae a fyddai'n sicrhau fod darpariaeth yn parhau hyd yn oed pa bai'r unigolion dan sylw yn symud ymlaen.

**Diffyg cydlynu ac adran 'arweiniol' ar gyfer chwarae**

6.4 Dim ond golwg rhannol iawn o'r ddarpariaeth ar gael sydd gan lawer o awdurdodau ac ychydig o drosolwg strategol neu gyd-gynllunio sydd. Mae gan wahanol adrannau gyfrifoldeb am wahanol agweddau o ddarpariaeth chwaraeon, yn aml gyda dynesiadau a dealltwriaeth wahanol iawn o'r hyn mae plant ei angen. Caiff y darnio hyn ei adlewyrchu ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol.

6.5 Mater allweddol a godwyd gan yr adolygiad yw'r cwestiwn lle dylid lleoli'r cyfrifoldeb arweiniol dros chwarae, ar lefel y Cynulliad a hefyd lefel yr awdurdod lleol. Dengys tystiolaeth ymchwil fod chwarae yn hanfodol ar gyfer datblygiad plant, ac mae hefyd yn cynorthwyo i gryfhau teuluoedd, cryfhau cymunedau a mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol. Gall wneud cyfraniad pwysig at gyflawni amcanion llawer o gynlluniau'r llywodraeth ac i agenda Gwell Cymru. Ond bydd yn anodd mwyhau'r potensial hwn heb arweiniad clir a dynesiad strategol at ddatblygu darpariaeth chwarae.

**Effaith cynlluniau'r llywodraeth a deddfwriaeth iechyd a diogelwch**

6.6 Ni fu darpariaeth chwarae erioed yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gwariant y llywodraeth, ond mae datblygiadau diweddar wedi bygwth hyfywdra rhai cyfleusterau chwarae ymhellach.

6.7 Mae deddfwriaeth Ewropeaidd, a gyflwynwyd yn Ionawr 1999, yn ei gwneud yn offer i'r holl offer chwarae a osodwyd ar ôl y dyddiad hwnnw i ateb gofynion iechyd a diogelwch neilltuol. Er nad oes yn rhaid symud offer presennol nad yw'n ateb y safonau newydd os y gall basio 'asesiad risg', mae rhai awdurdodau wedi teimlo'r nifer i gau nifer o'u hardaloedd chwarae sefydlog.

6.8 Bygythiad arall i athroniaeth chwarae mynediad agored fu effaith cynlluniau megis y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol, sydd wedi gwneud cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu gofal plant tra bo rhieni yn gweithio. Tra'n croesawu'r cynllun hwn, mae sefydliadau ac unigolion sy'n hyrwyddo chwarae plant yn bryderus fod hyn yn arallgyfeirio cynlluniau chwarae ar ôl ysgol a gwyliau ymaith o'u hamcanion gwreiddiol mewn ymgais i sicrhau cyllid, ac yn rhoi llai o bwysigrwydd ar chwarae mynediad agored.

6.9 Nid oes gan chwarae broffil uchel, yn wir prin y sonnir amdano yn y llu o ddogfennau cynllunio y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cynhyrchu. Os unrhyw beth, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu wrth i Gynlluniau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n canolbwyntio ar addysg a gwasanaethau gofal plant, ddisodli'r Adolygiadau Gofal Dydd a gynhaliwyd dan Adran 19 y Ddeddf Plant, oedd yn ystyried argaeledd cynlluniau chwarae gwyliau a gwasanaethau chwarae eraill i blant hyd at wyth oed.

**Gwella ansawdd**

6.10 Er fod Codau Ymarfer a rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n weithredol i rai dulliau o ddarpariaeth chwarae, cymharol ychydig o sylw a roddwyd i asesu ansawdd cyflwyniad gwasanaeth chwarae, a pha mor dda y mae'n ateb anghenion datblygu plant. Caiff hyn ei drafod yn awr gan Brosiect Asesu Ansawdd Chwarae Cymru, a drafodir ym Mhennod 2.

6.11 Byddai polisi chwarae sirol a gytunir gan yr holl ddarparwyr chwarae o fewn awdurdod yn gymorth i sicrhau fod ethos a gwerthoedd chwarae mynediad agored yn cael eu deall a'u hymarfer gan bawb sy'n ymwneud â'r maes hwn.

6.12 Mae llawer o brosiectau chwarae bach a sefydliadau ledled Cymru nad ydynt yn cael fawr, neu ddim, cefnogaeth, Medrai ffora neu rwydweithiau chwarae berfformio swyddogaeth bwysig wrth gynorthwyo grwpiau o'r fath i gynnig darpariaeth ansawdd uchel.

**Ymgynghoriad a phartneriaeth**

6.13 Amlygodd yr adolygiad bwysigrwydd strwythurau ar gyfer ymgynghori a chyd-gynllunio darpariaeth chwarae, a'r angen i ganfod ffyrdd i gynnwys pawb gyda diddordeb mewn chwarae. Roedd cefnogaeth i'r syniad o 'ladmerydd chwarae' lleol ym mhob awdurdod, ond er mwyn i'r swydd hon fod yn effeithlon byddai angen iddi weithredu o fewn strwythur clir ac ymrwymiad awdurdod lleol i ddatblygu darpariaeth chwarae.

6.14 Mae gan y sector gwirfoddol rôl bwysig mewn cyflwyno darpariaeth chwarae mynediad agored. Dim ond i gyrff gwirfoddol y mae rhai ffynonellau o grantiau ar gael, ac ystyriai cyrff cyllido yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr adolygiad fod y sector gwirfoddol yn 'torri tir newydd a blaengar yn ei ddynesiad at wasanaethau ac ateb anghenion cymunedol'. Eto mae'r graddau y mae awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol yn amrywio'n fawr ledled Cymru.

6.15 Gyda digon o adnoddau a chefnogaeth, gall ffora chwarae roi dull o gynnwys pob parti sydd â diddordeb. Medrodd y ffora hynny yn yr arolwg gyda gweithiwr cyflogedig gymryd rhan fwy effeithlon wrth ddosbarthu grant Chwarae 2000 a sicrhau yr ymgynghorid â phob sefydliad perthnasol. Ond roedd ffora eraill wedi diflannu, neu'n cael trafferth i oroesi.

**Cyllid anniogel**

6.16 Mae mater cyllid yn gons˘rn gwirioneddol i ddarparwyr chwarae statudol a gwirfoddol. Mae cyllid anniogel yn ei gwneud yn anodd i fabwysiadu dynesiad strategol, tymor hir at ddatblygu darpariaeth chwarae, a chreu'r isadeiledd angenrheidiol i gefnogi darparwyr chwarae.

6.17 Byddai cyllid parhaol gyda meini prawf yn sicrhau fod gweithgareddau a phrosiectau wedi eu cynllunio'n dda, yn hytrach nag yn ymateb ad hoc i gyllido unwaith-yn-unig. Pe darperir cyllid dros gyfnod hwy (o leiaf 3 i 5 mlynedd), byddai'n haws denu arian cyfatebol, sicrhau gwasanaeth rhagweithiol a galluogi mwy o blant i gyrchu cyfleoedd chwarae ansawdd uchel.

6.18 Roedd y cynllun grant Chwarae 2000 yn hwb gwerthfawr i gyfleoedd chwarae mynediad agored, ond byddai wedi bod hyd yn oed yn fwy defnyddiol pe byddai mwy o amser wedi bod ar gael ar gyfer ymgynghori â phartïon â diddordeb a darparu cynigion ar y cyd. Mae amseru cymorth grant yn arbennig o bwysig ar gyfer darparwyr chwarae, llawer ohonynt yn neilltuol o weithgar yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

**Casgliad**

6.19 Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu fod chwarae o fantais i blant, teuluoedd a chymdeithasau. Yng ngeiriau Chris Smith, Ysgrifennydd Gwladol Celfyddydau, Cyfryngau a Chwaraeon yn 1998, "Play is not only important to the quality of life of children, it is of great importance for the country's future, to the creative industries and for the economy'. Yng Nghymru, mae'r Cynulliad eisoes wedi cymryd y blaen wrth ddyrannu cyllid ar gyfer chwarae mynediad agored drwy'r grant Chwarae 2000, ac wrth gomisiynu'r adolygiad hwn. Mae angen gwirioneddol yn awr i adeiladu ar y gwaith hwn drwy ddatblygu dynesiad strategol at hyrwyddo cyfleoedd chwarae i holl blant Cymru.

## ARGYMHELLION

**Argymhelliad 1**

Dylai'r Cynulliad sefydlu grwp oll-bleidiol i ystyried sut i ddatblygu fframwaith polisi cydlynus ar chwarae i Gymru, ac i sefydlu lle dylai'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth chwarae fod.

**Argymhelliad 2**

Dylai pob awdurdod gael eu hannog i ddatblygu polisi a strategaeth chwarae mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, wedi eu hanelu at sicrhau y caiff Erthygl 31 Confensiwn y Deyrnas Unedig ar Hawliau'r Plant ei weithredu'n llawn.

**Argymhelliad 3**

Dylid parhau â'r gynsail o neilltuo cyllid yn benodol i ddatblygu darpariaeth chwarae mynediad agored, yn amodol ar ganlyniadau trafodaethau'r grwp polisi ollbleidiol. Profodd dyraniad drwy'r Partneriaethau Plant a Ieuenctid yn rhesymol lwyddiannus.

**Argymhelliad 4**

Bydd cyllid yn fwy effeithlon wrth ddatblygu dynesiad strategol at chwarae os medrir ei warantu am fwy na blwyddyn ar y tro. Beth bynnag, mae angen ei gyhoeddi gyda digon o amser ar gyfer ymgynghori a chynllunio, a gyda meini prawf clir ar gyfer y mathau o ddarpariaeth sy'n gymwys.

**Argymhelliad 5**

Mae angen cryfhau'r isadeiledd ar gyfer cefnogi a datblygu darpariaeth chwarae mynediad agored ledled Cymru. Mae Chwarae Cymru mewn sefyllfa dda i gynorthwyo gyda'r dasg hon, gan i'r corff weithio'n agos gyda darparwyr chwarae statudol a gwirfoddol yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru. Byddai cynyddu'r cyllid y mae'r corff yn ei dderbyn gan y Cynulliad yn ei alluogi i ehangu ei weithgareddau yn y maes hwn.

**Argymhelliad 6**

Dylai'r Cynulliad drafod mater gwella ansawdd mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, ac ystyried os y medrir argymhell y fframwaith Asesu Ansawdd sy'n cael ei ddatblygu gan Chwarae Cymru fel y sail ar gyfer gwella safonau'n genedlaethol. Dylid hysbysu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r angen i ddatblygu safonau priodol ar gyfer rheoleiddio darpariaeth chwarae a gweithwyr chwarae, mewn ymgynghoriad gyda sefydliadau megis Chwarae Cymru.

**Argymhelliad 7**

Os yw'r Cynulliad angen gwybodaeth ar wariant ar chwarae, bydd angen iddo roi diffiniadau o dermau fel 'chwarae mynediad agored' a chyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar y penawdau cyllideb sydd eu hangen, fel y darperir gwybodaeth ar ffurf gyson.

# Atodiad 2

Darn o "Yr Hawl Cyntaf – fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae": Chwarae Cymru (Mawrth 2001)

## DIFFINIADAU SYLFAENOL AC ESBONIADAU

**Syniadau a Therminoleg**
Mae pobl yn aml yn defnyddio'r un termau i ddisgrifio pethau gwahanol. Bydd yr adran hon yn ceisio egluro'r hyn a olygwn gan y gwahanol dermau a ddefnyddiwyd yn y fframwaith

**PROPIAU**

**<u>Y Cwricwlwm Gwaith Chwarae:</u>** Lluniwyd gan King a Hughes (gweler Hughes, 1996b) mae'r cwricwlwm yn awgrymu fod y profiadau hanfodol a ddarperir gan weithwyr chwarae ar gyfer plant yn disgyn i'r categorïau dilynol - Yr Elfennau (Tân, Dwr, Awyr, Daear), Hunaniaeth, Cysyniadau a'r Synhwyrau. Defnyddiwch yr enghreifftiau fel canllawiau yn unig a byddwch mor greadigol ag sydd modd gyda'ch plant.

**Yr Elfennau**

Tân Medrir cael profiad o dân drwy goginio, llosgi sbwriel neu'n syml drwy alluogi plant i gael tannau bach. Mae bwcedi tân mewn rhai gosodiadau chwarae ac felly'n annog diogelwch tra'n cyfyngu'r nifer o dannau i'r nifer o fwcedi tân. Mae profiad dan do yn fwy cyfyngedig ond gall gynnwys er enghraifft goginio dan do a gwneud canhwyllau.

Dwr Gall mynediad i ddwr ddod ar ffurf newid llwybr nentydd, ymladd dwr, padlo, iâ a phyllau. Yn bwysicaf, dylai mynediad i ddwr gael ei arolygu'n dda, a lle'n briodol, dylid cyfyngu dyfnder y dwr i'r isafswm sy'n gymesur â'r profiad.

Awyr Gall mynediad i awyr ddod ar ffurf hedfan barcud, sefyll mewn lleoedd uchel, gwneud melinau gwynt ac awyrennau model ac edrych ar effaith gwynt ar goed a dwr.

Daear Mae crochenwaith, garddio a mwd oll yn rhoi mynediad i blant i'r ddaear. Os oes cloddiau pridd yn y gosodiad chware, mae'n anochel y bydd plant eisiau gwneud tyllau ac ogofau. Os yw hyn yn digwydd, cynorthwywch hwy i wneud hynny'n ddiogel.

**Hunaniaeth**

Dylai plant gael eu galluogi i chwarae gyda eu hunaniaeth h.y. pwy ydynt a sut maent yn edrych a'r holl gysyniad o hunaniaeth h.y. beth yw ystyr hunaniaeth? Gall drychau, paent wyneb a chorff, colur, camerau a fideo oll hwyluso'r ymchwiliad hwn. Y ffefryn, fodd bynnag, yw'r bocs gwisgo fyny. Dylai gosodiadau chwarae sy'n defnyddio bocs gwisgo fyny gadw amrywiaeth dda o bob eitem bosibl mewn gwahanol feintiau. Dylai gynnwys dillad bob dydd, dillad parti, iwnifform a'r propiau ar gyfer hunaniaethau dychmygus ac anarferol.

**Cysyniadau**

I wneud synnwyr o'r ffyrdd lle mae llawer o'r hyn sy'n bodoli yn haniaethol, mae angen i blant fedru ymchwilio byd cysyniadau. Nid yw hyn yn golygu fod yn rhaid i gysyniadau fodoli mewn realaeth; er enghraifft medrir trafod democratiaeth, a hefyd gyfiawnder. Medrir chwarae gyda hwy ac amgennau. Medrir ymgorffori fformiwlae mathemategol neu arwyddion y sygnau i ffabrig y gosodiad chwarae. Gall clociau chwarae a chalendrau newydd gynrychioli amser. Mae gan blant egin-ymwybyddiaeth o haniaethau fel crefydd, athroniaeth a gwyddoniaeth o oedran cymharol gynnar, ac angen yr amser a chaniatâd i'w hymchwilio yn eu ffordd eu hunain.

**Y Synhwyrau**

Dylai'r gosodiad chwarae ysgogi'r synhwyrau. Mae cerddoriaeth, bwyd, arogl, lliwiau a golygfeydd a gwahanol weadau'n gwneud hynny. Dylai pob gosodiad chwarae fod â chefnliain cerddorol, nid yn unig gerddoriaeth plant a rhigymau, ond digonedd ac amrywiaeth o gerddoriaeth. Dylai'r amgylchedd chwarae fod yn ofod lliwgar a gweledol ysgogol lle defnyddir cynildeb dylunio. Ni ddylai gweithwyr chwarae ddefnyddio lliwiau sylfaenol neu ddefnyddiau amlwg yn unig. Awgrymodd Eibl-Ebeelsfeldt (196) fod chwarae yn ymchwil gwyddonol a gynhelir gan blant. Dylem godi i'r her ymhlyg a sicrhau fod y gosodiad yn hwyluso ymchwiliad ac arbrofion. Gall gerddi a/neu blanhigion roi llawer iawn o ysgogiad synhwyrol i blant yn neilltuol os oes gwahanol fathau o weadau, lliwiau, aroglau a ffrwythau.

**Tirlun Amrywiol:** Mae chwarae angen amgylchedd amrywiol i fod yn effeithlon. Dylent gynnwys cyfleoedd i gael unigedd, uchder, gemau gyda rheolau ffurfiol/anffurfiol, llethrau, bylchau gyda/heb bontydd ac ati.

**Deunyddiau:** Er fod deunyddiau rhydd yn hollbwysig i chwarae, mae mynediad i ddeunyddiau eraill e.e. offer coginio, coed, strwythurau, cyfrifiaduron ac ati hefyd yn bwysig.

**Adeiladu:** Mae hyn yn cyfeirio at adeiladu gan y plant. Dylai fod deunyddiau adeiladu; dylai plant gael gwybodaeth am adeiladu a bod â mynediad i'r arfau a'r technegau angenrheidiol ar gyfer adeiladu.

**Newid:** Mae chwarae meistrolaeth yn neilltuol yn ei gwneud yn ofynnol i blant ymwneud ag addasiad corfforol y gofod chwarae. Medrai hyn olygu unrhyw beth o ail-gyfeirio nant neu wneud twll i adeiladu man cuddio neu beintio wal.

**Ffocws:** Mae hyn yn cyfeirio at nodwedd y deuwch ar ei thraws yn y Fframwaith UWCH a elwir yn neoffilia. Mae neoffilia yn golygu y caiff plant eu denu gyda chwarae y maent yn ei gael yn newydd a diddorol. Dylai plant gael nodweddion a ystyriant fel ffocws newydd a diddorol yn eu gofod chwarae iddynt chwarae â hwy.

**Dewisiadau:** Mae'r gofyniad syml hwn yn gofyn os y gall plant wneud dewisiadau onest a diffuant am yr hyn a wnânt - nad mai dim ond un peth sydd i'w wneud ar sail hynny neu ddim - math o sefyllfa 'pêl-droed neu ddim'.

**Amgennau:** Mae'r term amgennau yn cyfeirio at blant yn cael mynediad i brofiadau na fyddai ganddynt gartref fel arall neu yn agos at eu cartref er enghraifft dawnsio step, barddoniaeth, ymweliadau i lan y môr neu i ofod ecolegol. Yn fodd bynnag, yn gynyddol i lawer o blant, bydd amgennau yn cynnwys gofod awyr agored, baw a phrofiad o risg.

**Arfau:** Mae rhai oedolion yn mynd yn nerfus iawn pan sonnir am arfau. Fodd bynnag, mae plant angen cael mynediad i fodd o greu ac adeiladu fel nodwedd arferol o'u profiad chwarae. Er na fyddem yn annog mynediad i arfau pwer heb arolygaeth briodol, dylai plant gael mynediad llai cyfyngedig i gyllyll, stafflwyr, sisyrnau, gynau glud poeth, morthwylion, llifiau yn cynnwys llifau bwa a driliau llaw.

**Rhannau Rhydd:** Mae rhannau rhydd, o Ddamcaniaeth Rhannau Rhydd Nicholson (1972), yn cyfeirio at unrhyw beth y medrir ei symud o amgylch, ei gario, ei rolio, eu pentyrru ar ben ei gilydd neu eu cyfuno i greu strwythurau a phrofiadau diddorol a newydd. Mae rhannau rhydd yn cynnwys: pren, cynhwysyddion, siapiau, teganau, anifeiliaid, planhigion ac ati.

**Risg:** Dim ond os y gwyddant beth yw risg a gyda pheth profiad ohono y gall plant ddysgu asesu risg ac osgoi risg ddiangen. Mae'r gosodiad chwarae yn ddelfrydol ar gyfer rhoi mynediad i blant sy'n cynnwys risg tra'n sicrhau fod cymorth cymwys ar gael os ydynt yn anafu eu hunain. Mewn gosodiadau chwarae dan arolygaeth, cafodd mynediad i risg fel arfer ei ddarparu drwy chwaraeon a gemau, dringo, cydbwyso, rhyngweithio gyda'r elfennau, teithio'n gyflym drwy'r awyr er enghraifft reidio beic, siglo a defnyddio rhedffordd awyrol. Gall plant anafu eu hunain weithiau ond mae'r anafiadau fel arfer yn wahanol iawn i'r rhai a geir o linellau rheilffordd trydan, ffyrdd, meysydd parcio aml-lawr, tomenni sbwriel, afonydd a chamlesi.